

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Cardiff Beauty Clinic

Dyddiad arolygu: 7 Ionawr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 8 Ebrill 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	21
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B – Cynllun gwella	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cardiff Beauty Clinic ar 7 Ionawr 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Cawsom sicrwydd bod Cardiff Beauty Clinic yn darparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd sy'n addas i roi triniaethau laser/IPL.

Roedd y gweithredwyr laser/IPL yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn, gyda phob un o'r cleifion yn nodi bod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ardderchog.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gallai cleifion wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl
- Roedd nodiadau a chofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r gweithredwyr laser/IPL gwblhau hyfforddiant diogelu priodol
- Mae angen gwneud rhai diweddariadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau
- Mae angen rhoi'r gofrestr o driniaethau cleifion ar waith.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddifffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau brys i'w hunioni.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cardiff Beauty Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn 866 Newport Road, Tredelerch, Caerdydd, CF3 4LJ.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 26 Medi 2017.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi saith aelod o staff, ac mae dau ohonynt yn gweithredu'r peiriant laser/IPL.

Mae Cardiff Beauty Clinic wedi'i gofrestru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Gwaredu gwallt
- Therapi i leihau llinellau ar y croen
- Adfywio'r croen
- Gwythiennau edau
- Mannau geni sy'n debyg i we pry cop
- Creithiau acne
- Acne weithredol
- Blew dieisiau
- Pigmentiad y croen

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y staff yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Roedd adborth y cleifion yn yr holiaduron AGIC yn nodi bod y gwasanaeth yn ardderchog.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Rydym wedi argymhell y dylid diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau y caiff yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau eu cynnwys.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 9 o holiaduron.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael yn ardderchog. Roedd sylwadau'r cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r holl staff yn wych ac yn broffesiynol. Rwy wedi teimlo'n gyfforddus drwy gydol y triniaethau, ac mae'n hawdd mynd at y staff ac maen nhw'n gyfeillgar. Byddwn i'n eu hargymhell yn fawr i'm ffrindiau a'm teulu"

"Mae'r staff yn wych. Rwy'n cael gwybodaeth am driniaethau bob amser"

"Gwasanaeth gwych a staff cyfeillgar"

"Rwy'n teimlo bod y staff a'r lleoliad yn hollol berffaith ar gyfer y gwasanaeth sydd eu hangen arnaf".

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgyngoriad cychwynnol a bod yn rhaid iddynt lofnodi ffurflen cyn pob triniaeth ddilynol sy'n cadarnhau a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol. Mae hyn yn dilyn canllawiau arferion gorau ac yn helpu i sicrhau bod triniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau ac wedi'u llofnodi yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn. Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur hefyd eu bod yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau eu hanes meddygol, bob amser cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff, ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau.

Dywedodd y staff wrthym, lle y bo'n berthnasol, y byddent yn sicrhau na fyddai neb yn yr ystafell pe byddai angen i glaf newid/dadwisgo, ac y caiff tywelion urddas/gynau llofft eu darparu. Roedd clo cod allwedd ar ddrws yr ystafell driniaeth, a oedd felly yn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig i'r ystafell. Mae hyn yn cynnal urddas y claf cyn ac yn ystod triniaeth.

Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed.

Cadarnhaodd y staff fod y cleifion yn gallu dod â hebryngwr i'w cefnogi yn ystod ymgynghoriadau, lle y bo'n berthnasol, os bydd angen.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Y rheswm dros hyn yw bod yr holl gleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn triniaeth laser/IPL. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael a'r risgiau a'r manteision a oedd yn

gysylltiedig â phob opsiwn. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod bob amser yn cael gwybod am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod angen iddynt lofnodi ffurflen cydsynio er mwyn dangos eu bod yn deall y manteision a'r risgiau cysylltiedig cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd fod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad, a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth, lawn gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben¹ manwl i ni a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth. Mae'r ddogfen hon ar gael i'r cleifion ar gais. Roedd y ddogfen hon yn ddiffygiol o ran rhai o'r meysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau, sef yn benodol, crynodeb o'r weithdrefn gwyno; crynodeb o farn y cleifion; cyfeiriad a rhif ffôn AGIC a gwybodaeth am sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf. Mae angen ychwanegu'r meysydd hyn ac anfon copi wedi'i ddiweddarau i AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion ac anfon y fersiwn wedi'i diweddarau i AGIC. Mae angen i'r canllaw i gleifion gynnwys crynodeb o'r weithdrefn gwyno; crynodeb o farn y cleifion; cyfeiriad a rhif ffôn AGIC a gwybodaeth am sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf.

¹ Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y staff wrthym fod yn rhaid i gleifion gytuno i gael prawf clytiau cyn cael triniaeth er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser/IPL sy'n ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael prawf clwt cyn cael triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a gwelwyd tystiolaeth bod nodiadau'r cleifion yn cael eu cynnal i safon dda, sy'n golygu bod diogelwch a llesiant y cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno gofal.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae Cardiff Beauty Clinic ar ddau lawr, gyda'r ystafell driniaeth laser/IPL ar yr ail lawr. Mae'n bosibl na fydd rhai cleifion ag anawsterau symudedd yn gallu cyrraedd yr ystafell driniaeth yn hawdd, ac felly efallai y bydd y rheolwr cofrestredig am ystyried ychwanegu'r wybodaeth hon at y wefan a/neu'r canllaw i gleifion.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Soniodd y staff wrthym am y gwahanol gyfleoedd yr oedd y cleifion yn eu cael i roi adborth am y gwasanaeth. Mae'r brif ffynhonnell adborth a ddefnyddir gan y gwasanaeth ynghlwm wrth eu system trefnu apwyntiadau ar-lein. Roedd yr adborth a gafwyd drwy'r system trefnu apwyntiadau yn cael ei ddefnyddio a'i gyhoeddi ar eu gwefan. Gan mai dim ond y cleifion presennol sy'n gallu defnyddio'r system trefnu apwyntiadau a gweld yr adborth yno, mae'r gwasanaeth yn cyhoeddi rhywfaint o'r adborth ar eu gwefan. Drwy hyn, gall darpar gwsmeriaid weld rhai o'r adolygiadau.

Er y gellir rhoi adborth mewn nifer o ffyrdd, dywedodd y staff wrthym nad yw'n cael ei ddadansoddi'n ffurfiol. Gwnaethom awgrymu efallai y bydd y staff am ystyried adolygu a dadansoddi'r holl adborth fel y gellir nodi themâu.

Dywedodd y mwyafrif o'r holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ymwybodol y gofynnir am eu barn am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y clinig, er enghraifft, drwy holiaduron cleifion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol ac yn bodloni'r rheoliadau er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion a oedd yn ymweld â'r clinig.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Roedd y peiriant laser/IPL yn cael ei wasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, ac roedd y gweithredwyr wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddefnyddio'r peiriant. Rydym wedi gofyn am wybodaeth am broses galibradu'r peiriant er mwyn cael sicrwydd ei fod yn gweithredu'n gywir yn ystod triniaethau.

Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel a dibynadwy. Roedd yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus yr olwg ac roedd staff yn ymwybodol o'r tasgau glanhau yr oedd angen eu cyflawni bob dydd er mwyn sicrhau bod safonau yn parhau'n uchel.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Mae'r landlordiaid sy'n berchen ar yr adeilad yn gyfrifol am y mwyafrif o'r trefniadau cynnal a chadw. Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Roedd gwiriad wedi'i gynnal ar y gwifrau trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf ac roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r clinig yn ddigonol pe bai tân. Roedd asesiad risg tân wedi cael ei ddiweddarau yn 2019 a chynhelir ymarferion tân er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu mynd allan o'r adeilad yn ddiogel ac mor gyflym â phosibl. Roedd arwyddion priodol yn dangos yr allanfeydd tân, ac roedd dyfeisiau diffodd tân ar gael yn yr adeilad ac yn cael eu gwasanaethu er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Ar adeg ein hymweliad, dywedodd y staff wrthym nad oeddent wedi cwblhau

hyfforddiant diogelwch tân. Fodd bynnag, ar ôl ein hymweliad, rhoddodd warden diogelwch tân yr adeilad hyfforddiant i'r staff, a chadarnhawyd cynnwys yr hyfforddiant drwy e-bost a gawsom ganddo. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff y clinig y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd popeth ynddo'n gyfredol a dywedodd y staff fod gwiriadau'n cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn aros yn ddiogel ac yn effeithiol i'w defnyddio.

Disgrifiodd y staff weithdrefnau priodol y dylid eu dilyn mewn argyfwng, er enghraifft pe bai claf yn llewygu. Gwnaethom argymhell y dylid cofnodi'r gweithdrefnau hyn mewn polisi lleol. Roedd un aelod o'r staff yn gweithredu fel swyddog cymorth cyntaf dynodedig y gwasanaeth, ond nid oedd tystysgrif ar gael ar adeg ein hymweliad. Gwnaethom gynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig gael tystysgrif gan yr unigolyn i'w chadw yn ei chofnodion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi gweithdrefn mewn argyfwng i gynnwys y trefniadau lleol y mae angen i'r staff eu dilyn.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y staff drefniadau rheoli heintiau'r clinig, ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith ganddynt. Gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r polisi er mwyn adlewyrchu'r gweithdrefnau gwirioneddol a ddisgrifiwyd i ni, fel bod yr holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran rheoli heintiau.

Roedd amserlenni glanhau ar waith ac yn cael eu cwblhau er mwyn dangos yn glir yr hyd a wnaed a phryd.

Dywedodd y staff wrthym fod gweithdrefnau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu unrhyw wastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi rheoli heintiau er mwyn adlewyrchu'n glir y gweithdrefnau y mae disgwyl i'r staff eu dilyn o ran gweithgareddau rheoli heintiau yn y clinig.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig mai dim ond cleifion 18 oed a hŷn y mae'r gwasanaeth yn eu trin.

Gwelsom fod polisi diogelu ar waith, a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Roedd y polisi hefyd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaeth diogelu leol berthnasol er mwyn sicrhau y rhoddir gwybod am bryderon yn briodol.

Nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Gwnaethom argymhell y dylai pob gweithredwr laser/IPL gwblhau hyn er mwyn sicrhau'r sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl weithredwyr laser/IPL yn cwblhau hyfforddiant diogelu

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion wrth i'r peiriant laser/IPL gael ei ddefnyddio yn y clinig. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y peiriant laser/IPL wedi cael ei wasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl
- roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn rhoi cymorth arbenigol ar ddiogelwch gosodiad y peiriant laser a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd

- roedd rheolau lleol² a ddatblygwyd gan y Cyngorydd Diogelu rhag Laserau ar waith a oedd yn disgrifio sut i ddefnyddio'r peiriant laser/IPL yn ddiogel, ac roedd y staff sy'n defnyddio'r peiriant wedi eu llofnodi er mwyn dangos eu bod yn ymwybodol ohonynt ac yn cytuno i ddilyn y rheolau hyn.

Ar adeg yr ymweliad, nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth i ddangos a oedd y peiriant laser/IPL wedi cael ei galibradu. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig gysylltu â'r gwneuthurwr i gadarnhau'r broses hon. Mae'n bwysig calibradu'r peiriant er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gywir wrth gael ei ddefnyddio ar gyfer triniaethau.

Roedd protocolau meddygol ar waith ac wedi cael eu llofnodi gan ymarferydd meddygol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y protocolau yn ymwneud â thriniaethau gwaredu gwallt ac adfywio'r croen. Gwnaethom atgoffa'r staff y byddai angen rhoi protocolau ychwanegol/wedi'u diweddarau ar waith pe byddent yn cynnal unrhyw driniaethau eraill, yn unol ag amodau eu cofrestriad ag AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau sut y caiff y peiriant laser/IPL ei galibradu. Rhaid cael gwybodaeth am galibradu'r peiriant i ddangos bod y peiriant yn gywir ac i ddangos ei allbwn, er mwyn sicrhau diogelwch y triniaethau a ddarperir.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)³ i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriant laser/IPL, gan eu bod wedi cwblhau hyfforddiant Craidd

² Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

³ [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices](#)

Gwybodaeth⁴ a hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant laser/IPL ar sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.

Gwelsom fod sbectolau amddiffyn y llygaid sy'n benodol ar gyfer cryfder y peiriant laser/IPL ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr laser. Cadarnhaodd y staff fod y sbectolau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael triniaeth ar adeg yr arolygiad, ond disgrifiodd y staff y rhagofalon diogelwch a oedd yn cael eu cymryd wrth roi triniaeth; mae arwydd y tu allan i ddrws yr ystafell driniaeth yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y risg y bydd laserau yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r ystafell driniaeth. Mae'r ystafell driniaeth wedi'i chloi, a dim ond drwy ddefnyddio cod allwedd y gellir dod i mewn. Mae hyn yn atal unrhyw unigolion anawdurdodedig rhag dod i mewn yn ystod triniaethau, ac mae'r peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser er mwyn atal defnydd anawdurdodedig.

Gwelsom dystiolaeth bod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r asesiad risg ym mis Ionawr 2020 heb nodi unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, nid oedd yr asesiad risg dan sylw ar gael ar y pryd, a gwnaethom ofyn i'r clinig anfon copi i AGIC. Bydd yr asesiad risg yn nodi unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriant laser/IPL ac amgylchedd yr ystafell driniaeth.

Gwnaethom edrych ar yr asesiad risg a gwblhawyd ym mis Mehefin 2019 gan swyddog iechyd a diogelwch y clinig, ac nid oedd hwnnw yn nodi unrhyw gamau gweithredu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael copi o'r asesiad risg a gwblhawyd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a chadw copi yn ei ffeiliau. Dylid anfon copi o'r asesiad risg i AGIC

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gan y rheolwr cofrestredig systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion, fel sy'n

⁴ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau laser yn ddiogel

ofynnol gan y rheoliadau. Er enghraifft, bydd y staff yn adolygu nodiadau'r cleifion er mwyn sicrhau bod pob adran yn cael ei chwblhau a'i llofnodi gan yr unigolyn/unigolion priodol.

At hynny, roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i amddiffyn iechyd, lles a diogelwch y cleifion a phobl eraill sy'n ymweld â'r clinig.

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo er mwyn atal mynediad heb awdurdod atynt.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau addas ar gyfer cadw cofnodion yn y clinig, gan gynnwys nodiadau manwl am gleifion a oedd o ansawdd da. Roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei chofnodi yn y nodiadau yn gyfystyr â'r hyn sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer y gofrestr o driniaethau cleifion. Fodd bynnag, gan nad oes cofrestr, gwnaethom argymhell y dylid rhoi cofrestr o driniaethau cleifion ar waith er mwyn cofnodi'r holl driniaethau a roddir, gan gynnwys ail driniaethau. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i ddadansoddi ei holl gofnodion pe bai digwyddiad e.e. bydd yn gallu nodi'n hawdd yr holl gleifion a gafodd triniaeth gan beiriant laser/IPL ar unrhyw ddiwrnod neu fis penodol.

Roedd yr holl gofnodion mewn perthynas â'r peiriant laser/IPL ac amgylchedd yr adeilad yn cael eu cadw mewn ffeil ac roedd yn hawdd cael gafael arnynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr o driniaethau cleifion ar waith a chofnodi gwybodaeth gan gynnwys y dyddiad, enw/dynodydd y claf, yr ardal a gafodd ei thrin, nifer y pigladau, manylion am unrhyw effeithiau andwyol a llofnod gweithredwr y peiriant laser/IPL.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y gweithredwyr laser/IPL yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Roedd gan y gwasanaeth ystod o bolisïau a gweithdrefnau, a gwnaethom argymhell y dylid diwedddaru rhai manylion ynddynt yn unol â'r rheoliadau.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith er mwyn sicrhau yr ymatebir i unrhyw gwynion yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae angen ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y polisi a'r canllaw i gleifion.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Cardiff Beauty Clinic ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ac sy'n un o'r ddau weithredwr laser/IPL.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn neu'n gynt pe bai angen eu diwedddaru. Gwnaethom nodi rhai polisïau yr oedd angen eu diwedddaru, a gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r staff lofnodi'r polisïau er mwyn dangos eu bod wedi eu darllen ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod llinellau atebolrwydd clir yn y clinig, a bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn amddiffyn y clinig rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol yn unol â'r amserlenni adolygu. Dylai'r holl staff lofnodi'r polisïau er mwyn dangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno briodol, ond gwnaethom argymhell y dylid cynnwys manylion cyswllt AGIC, yn unol â gofynion rheoliadol. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben, ond mae angen ei gynnwys yn y canllaw i gleifion hefyd.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol a phryderon a dderbynnir gan y clinig. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ystyried adolygu'r wybodaeth hon er mwyn nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r golwg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi cwyno i gynnwys manylion cyswllt AGIC ac ychwanegu gwybodaeth hefyd am wneud cwyn at y canllaw i gleifion.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod gweithredwyr y peiriant laser/IPL, wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth o fewn y pum mlynedd diwethaf, ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser/IPL.

Er mwyn sicrhau bod gweithredwyr y peiriant laser yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd, ac i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus, rydym yn cynghori y dylai'r staff gwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth bob tair blynedd.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael eu diogelu rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel. Roedd un aelod o'r staff yn aros am ei thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysylltu a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cardiff Beauty Clinic

Dyddiad arolygu: 7 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion ac anfon y fersiwn wedi'i diweddarau i AGIC. Mae angen i'r canllaw i gleifion gynnwys crynodeb o'r weithdrefn gwyno; crynodeb o farn y cleifion; cyfeiriad a rhiff ffôn AGIC yn ogystal â'r adroddiad arolygu diweddaraf.	18. Cyfathrebu yn effeithiol 1. Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Mae'r canllaw i gleifion wedi cael ei anfon. Rwyf wedi cynnwys y weithdrefn gwyno, crynodeb o farn y cleifion a manylion cyswllt AGIC.	Rheolwr	
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi gweithdrefn mewn argyfwng i gynnwys y trefniadau lleol y mae angen i'r staff eu dilyn.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau	Mae'r weithdrefn mewn argyfwng tân wedi cael ei diweddarau a'i hanfon. Mae'r polisi risg a'r polisi iechyd a diogelwch wedi cael eu diweddarau.	Rheolwr	
Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi rheoli heintiau er mwyn adlewyrchu'n glir y gweithdrefnau y mae disgwyl i'r staff eu dilyn o ran gweithgareddau rheoli heintiau yn y clinig.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae'r polisi rheoli heintiau wedi cael ei ddiweddarau a'i anfon.	Rheolwr	
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl weithredwyr laser/IPL yn cwblhau hyfforddiant diogelu	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Trefnwyd cyrsiau diogelu gyda High Speed Training	Rheolwr	
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau sut y caiff y peiriant laster/IPL ei galibradu. Rhaid cael gwybodaeth am galibradu'r peiriant i ddangos bod y peiriant yn gywir ac i ddangos ei allbwn, er mwyn sicrhau diogelwch y triniaethau a ddarperir.	16. Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig	Anfonodd Simon Cheney dystiolaeth fod y peiriant wedi cael ei galibradu a'i wasanaethu	Rheolwr	
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael copi o'r asesiad risg a gwblhawyd gan y Cynghorydd	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Anfonodd Simon Wharmby gopi o hyn	Rheolwr	

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Diogelu rhag Laserau a chadw copi yn ei ffeiliau. Dylid anfon copi o'r asesiad risg i AGIC				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr o driniaethau cleifion ar waith a chofnodi gwybodaeth gan gynnwys y dyddiad, enw/dynodydd y claf, yr ardal a gafodd ei thrin, nifer y pigladau, manylion am unrhyw effeithiau andwyol a llofnod gweithredwr y peiriant laser/IPL.	16. Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig	Mae cofrestr wedi cael ei llunio ar gyfer y peiriant IPL ac anfonwyd tystiolaeth o hyn	Rheolwr	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol yn unol â'r amserlenni adolygu. Dylai'r holl staff lofnodi'r polisïau er mwyn dangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.	1. Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Mae pob polisi yn cynnwys mynegai erbyn hyn ac mae'r staff i gyd wedi'u llofnodi	Rheolwr	
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi cwyno i gynnwys manylion cyswllt AGIC ac ychwanegu gwybodaeth am wneud cwyn at y canllaw i gleifion	23. Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau	Mae manylion cyswllt AGIC wedi cael eu hychwanegu at y weithdrefn gwyno a'r canllaw i gleifion	Rheolwr	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Charlotte Mcneill

Swydd: Rheolwr

Dyddiad: 17/02/2020